

POLISI PREIFATRWYDD

Bydd Gwefus yn prosesu eich data personol chi pan fydd sail gyfreithiol dros wneud hynny'n unig o dan Reoliad Cyffredinol Gwarchod Data 2018 yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod eich data personol chi'n ddiogel. Er mwyn atal unrhyw fynediad neu ddatgeliad anawdurdodedig ac er mwyn diogelu'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu gennych chi neu amdanoch chi, rydym ni wedi rhoi gweithdrefnau technegol, ffisegol a rheolaethol priodol ar waith lle bo angen.

Pa ddata personol yr ydym yn ei gasglu gennych chi neu amdanoch chi?

Gallwn gasglu data personol gennych chi neu amdanoch chi drwy'r prosesau canlynol:

- * Pan fyddwch yn cysylltu â ni.
- * Pan fyddwch yn anfon dogfennau neu destunau aton ni.
- * Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan ni.
- * Pan fyddwch yn ymweld â ni'n bersonol.
- * Pan fyddwch yn ymddangos yn un o'n ffilmiau ni.

Llinos Griffin (perchennog Gwefus) fydd 'Rheolwr Gwarchod Data' unrhyw wybodaeth bersonol yr ydym ni'n ei chasglu gennych chi neu amdanoch chi.

Pan fyddwn yn casglu data personol gennych chi neu amdanoch chi, pam fod angen y data arnom ni, beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r data hwnnw, beth yw'n meini prawf ni ar gyfer ei gadw a ph'un a fydd angen i ni ei drosglwyddo i drydydd partïon i'w brosesu?

Darperir manylion isod am y ffyrdd o gysylltu â ni.

Rydym yn gofyn am y data at y dibenion canlynol:

- * Er mwyn darparu gwasanaethau proffesiynol i chi.

- * Er mwyn bodloni ein dyletswyddau proffesiynol neu gytundebol ni i chi.
- * Er mwyn gwneud ffilmiau yr ydych chi wedi cytuno i ymddangos ynddynt.
- * Er mwyn gwneud unrhyw beth arall yr ydych chi wedi'n hawdurdodi ni i'w wneud gyda'ch data personol chi.

Ac eithrio unrhyw ddata personol sydd yn cael ei gyhoeddi yn ein ffilmiau ni neu ar ein gwefan (gydag eich caniatâd chi), ni chaiff unrhyw ddata personol ei gyhoeddi neu drosglwyddo i drydydd parti.

Fe wnawn ni gael eich caniatâd chi cyn eich ffilmio chi, a bydd y ffurflen ganiatâd yn dweud wrthoch chi beth a fyddwn ni'n ei wneud gyda'r data personol perthnasol, ein meini prawf ar gyfer ei gadw a ph'un a fydd angen i ni ei drosglwyddo i drydydd parti naill ai i'w brosesu ar ein rhan ni neu y cawsom ni ein comisiynu i wneud y ffilm ar eu rhan nhw (i raddau y mae'r egwyddorion hynny'n wahanol i'r egwyddorion a nodir uchod).

Mae dulliau diogelu sefydliadol a thechnolegol priodol ar waith lle bo angen er mwyn sicrhau diogelwch eich data personol chi.

Ar wahân i unrhyw ddata personol sydd yn cael neu sydd wedi cael ei gyhoeddi yn ein ffilmiau, caiff eich data personol chi ei gadw am gyfnod o hyd at 15 mlynedd. Ar ôl hynny, bydd y data personol hwnnw'n cael ei ddinistrio fel arfer.

Eich hawliau

Yn amodol ar rai eithriadau cyfreithiol, mae gynnoch chi'r hawliau canlynol:

- * Yr hawl i wneud cais am gopi o'r wybodaeth bersonol y mae Gwefus yn ei chadw amdanoch chi.
- * Yr hawl i ofyn i ni gywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio unrhyw ddata personol gwallus mewn amgylchiadau penodol.
- * Yr hawl i ofyn i'ch data personol chi gael ei ddileu mewn amgylchiadau penodol.

- * Yr hawl i gyfyngu ar ein gallu ni i brosesu eich data personol chi mewn amgylchiadau penodol.
- * Yr hawl i rwystro prosesu'ch data personol at ddiben marchnata uniongyrchol.
- * Yr hawl i wrthwynebu prosesu'ch data personol chi mewn amgylchiadau penodol.
- * Yr hawl i wrthwynebu gwneud penderfyniadau drwy ddull awtomeiddiedig.
- * Yr hawl i wneud cais i'ch data personol chi gael ei drosglwyddo.

Wedi dweud hynny, wrth gwrs, os ydych wedi ymddangos yn un o'n ffilmiau ni, ni fydd hi'n bosib i ni ddileu neu ddiwygio eich data personol chi o fewn y ffilm honno.

Er mwyn dysgu mwy am yr hawliau hynny, ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). <https://ico.org.uk/for-organisations/data-protection-reform/overview-of-the-gdpr>

Os gwelwch yn dda, anfonwch unrhyw geisiadau o'r fath at:

Llinos Griffin (perchennog Gwefus)

Cyfeiriad post: Hafod Wen
Llanfrothen
Gwynedd
LL48 6AX

Rhif ffôn: 07443 656271

Cyfeiriad ebost: gwefus.cymru@gmail.com

Os nad ydych chi'n fodlon i gysylltu â ni, gallwch anfon cwynion i [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

Cyfeiriad post: Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113 (cyfradd leol) neu 01625 545 745

Newidiadau i'r Polisi Preifatrwydd hwn

Os bydd y Polisi Preifatrwydd hwn yn cael ei newid mewn unrhyw ffordd, byddwn yn rhoi fersiwn diwygiedig ar y dudalen hon. Byddwn yn adolygu'r dudalen hon yn rheolaidd er mwyn sicrhau'ch bod chi'n ymwybodol bob amser pa wybodaeth yr ydym ni'n ei chasglu, sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno ac o dan ba amgylchiadau (os o gwbl) y byddwn yn ei rhannu â phartïon eraill.

Cafodd y Polisi Preifatrwydd hwn ei ddiweddarau ar y 24ain o Fai 2018.